MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd



# PENNODD CYNGOR DINAS CASNEWYDDEI GYLLIDEB AR GYFER 2020-21

**Yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi pennu ei gyllideb ar gyfer 2020-21.**

Ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei pharatoi ar ddiwedd 2019, cadarnhaodd ffigur setliad terfynol y cyngor grant gwell gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jane Mudd:

*"Roeddem yn falch iawn o gael setliad drafft cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn ein rhoi mewn gwell sefyllfa nag a feddyliwyd yn wreiddiol. Mae wedi rhoi ychydig mwy o hyblygrwydd i ni wrth wrando ar yr hyn y mae ein trigolion yn teimlo'n gryf yn ei gylch.*

*"Rydym wedi ystyried yn llawn yr ymatebion gan y cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid ac wedi ceisio ein gorau glas i sicrhau cydbwysedd rhwng mynd i'r afael â'r meysydd a'r materion a amlygwyd, buddsoddi yn y meysydd strategol a nodwyd gan y cyngor a diogelu hygrededd ariannol yr awdurdod ar gyfer y dyfodol.*

*"O ganlyniad uniongyrchol i'r adborth a gafwyd, rydym wedi penderfynu cadw'r cyllid ar gyfer cymorth i deuluoedd a ddarperir drwy bartneriaeth Barnardo's; teithio i'r ysgol neu'r coleg ar ôl 16 oed a chymorth i rai sefydliadau yn y sector gwirfoddol*

*Parhad ar dudalen 2*

# GWAITH YN DECHRAU ADFER ARCÊD

**Mae project ar y gweill i adfer Arcêd y Farchnad hanesyddol canol y ddinas.**

Mae contractwyr arbenigol wedi dechrau gweithio ar y cysylltiad o'r 19eg ganrif rhwng y Stryd Fawr a Stryd y Farchnad.

Bydd y gwaith yn cynnwys adfer blaen y siopau ac adnewyddu'r canopi gwydr.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi sicrhau arian gan y Gronfa Dreftadaeth, Cadw a Llywodraeth Cymru ar gyfer y project i adfer yr Arcêd rhag dirywio ymhellach a rhoi dyfodol gwell iddi.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

*"Mae hwn wedi bod yn gynllun cymhleth felly rwy'n falch iawn bod y gwaith wedi dechrau.*

*"Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ran o ganol y ddinas, gan fod o fudd nid yn unig i'r busnesau yn yr arcêd ond i'r rhai yn yr ardal gyfagos.*

*"Yn bwysig, byddwn hefyd yn helpu i ddiogelu rhan bwysig o dreftadaeth y ddinas."*

*"Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gysylltiedig, yn enwedig swyddogion y Cyngor, am weithio mor galed i wneud hyn yn bosibl. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gronfa Dreftadaeth am gefnogi ein gweledigaeth ac, wrth gwrs, chwaraewyr y loteri sy'n cyfrannu at y gronfa yn ogystal ag aelodau'r gymuned sydd wedi bod yn rhan o'r project.*

Anthony A Davies yw'r un cwmni a weithiodd ar Neuadd Goffa Trecelyn a phenodwyd yr arbenigwyr treftadaeth Davies Sutton fel y penseiri.

Bydd yr Arcêd ar agor o hyd tra mae'r project, sydd i fod i gael ei gwblhau y flwyddyn nesaf, yn mynd rhagddo.

Wedi ei enwi'n Fennell's Arcade yn wreiddiol, cafodd ei greu ym 1869 yn llwybr allweddol i gerddwyr rhwng yr orsaf drenau a'r farchnad newydd bryd hynny.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dirywio felly gweithiodd y Cyngor gyda'r nifer o berchenogion i ddod o hyd i ateb a arweiniodd at gyflwyno'r cais i'r Gronfa Dreftadaeth.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y project, cymerodd trigolion o bob oed, o blant ysgol i drigolion hŷn sydd ag atgofion melys o'r arcêd mewn dyddiau gwell, ran yn y cyfnod datblygu.

Roedd pobl wedi rhyfeddu gan hanes yr arcêd a bydd y project hwn yn helpu i ddiogelu a gwella darn o dreftadaeth Casnewydd am genedlaethau i ddod.

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

MARKET ARCADE NEWPORT
CASNEWYDD ARCÊD MARCHNAD

## CYHOEDDI MAER NEWYDD

**Bydd y Cynghorydd David Williams yn dod yn 388fed Maer y ddinas pan ddaw'n brif ddinesydd Casnewydd ym mis Mai.**

Bydd y Cynghorydd Williams, sy'n cynrychioli ward y Graig, yn cymryd yr awenau yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor ar 12 Mai.

Bydd ei wraig Ruth wrth ei ochr fel y Faeres am y flwyddyn.

Cofnodir bod y maer cyntaf wedi dechrau yn ei swydd yn 1314 ac mae Meiri blaenorol Casnewydd yn cynnwys arweinydd y Siartwyr John Frost.

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

## MAE CASGLIADAU GWASTRAFF GWYRDD YN ÔL

**Ailddechrau casgliadau gwastraff gardd yng Nghasnewydd y mis hwn.**

Cesglir biniau â chloriau oren bob pythefnos, bob yn ail wythnos i gasgliadau sbwriel, a gellir eu defnyddio ar gyfer porfa a phlanhigion sydd wedi'u tocio yn yr ardd.

Caiff casgliadau ailgylchu eu gwneud yn wythnosol gan Wastesavers. Mae'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, yn Docks Way, nawr ar agor tan 6pm ar ddydd Iau.

Gallwch weld diwrnodau casglu, amseroedd agor ar gyfer y ganolfan ailgylchu a llawer mwy ar **www.newport.gov.uk/recycling**

# UCHAFBWYNTIAU CYLLIDEB 2020/21

**Yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd a phartneriaid, mae'r cyngor wedi pennu ei gyllideb.**

**Buddsoddi dros £10 miliwn mewn ysgolion.**
Cytunodd y Cabinet y dylid rhoi'r £4.6 miliwn llawn o arian ychwanegol a ddyrannwyd ond na neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ar ben y bron i £4.4 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer addysg, gan gynnig buddsoddiad ychwanegol o £1.4 miliwn i gydnabod yr heriau o niferoedd disgyblion cynyddol. Bydd £90,000 yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth arbenigol a helpu ysgolion gyda'u rheolaeth ariannol ac adnoddau dynol yn ystod y cyfnod heriol hwn.

**Treth Gyngor**
Er bod y ffynhonnell incwm hon yn llai na chwarter cyllideb yr awdurdod, mae'r Cabinet yn cydnabod ei fod yn dâl sylweddol i drigolion. Gostyngwyd y cynnydd arfaethedig gwreiddiol i 6.95 y cant – gyda'r mwyafrif o aelwydydd Casnewydd ym mandiau A i C - mae hyn yn golygu cynnydd o rhwng £1 a £1.33 yr wythnos. Disgwylir y bydd yn parhau i fod yn un o'r cyfraddau treth gyngor isaf yng Nghymru.

**£120k ychwanegol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid**
Bydd y cyngor yn gweithio gyda Chyngor Ieuenctid Casnewydd i benderfynu sut y dylid ei wario er budd pobl ifanc yn y ddinas.

**£80,000 i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd**
Bydd y rheini sy'n gwneud gwaith i ailddechrau defnyddio eiddo gwag yn cael cynnig gostyngiad o 50 y cant am flwyddyn ar y Dreth Gyngor. Gallai hyn gefnogi'r gwaith o adnewyddu hyd at 125 eiddo ar draws y ddinas.

**£210,000 i wneud canol y ddinas yn fwy deniadol**
Bydd arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wneud canol y ddinas yn fwy deniadol, diogel a glân, gyda'r nod o gynyddu ei apêl fel canol dinas 24/7. Bydd hyn yn ehangu ar adfywiad parhaus, effaith gadarnhaol gorfodi parcio sifil ac yn ariannu gwaith glanhau ychwanegol.

**Buddsoddiad o fwy na £292,000 i'r maes maethu**
Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i'r ffioedd sy'n cael eu talu i ofalwyr maeth er mwyn gwneud y Cyngor yn fwy cystadleuol o'i gymharu ag asiantaethau yn y sector preifat. Rydym am leoli plant lleol gyda gofalwyr lleol a lleihau nifer y trefniadau drutach y tu allan i'r cyngor.

**Rhyddhad ardrethi dewisol**
Bydd £60,000 ychwanegol ar gael i elusennau, cyrff gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

**Barnardo's - cymorth i deuluoedd**
Mae gan y cyngor bartneriaeth hirsefydlog gyda Barnardo's i gynnig gwasanaethau cymorth i deuluoedd i blant a theuluoedd sydd ar ymyl gofal. Cynigiwyd gostyngiad o £75,000 yn y gwasanaeth hwn, ond yn seiliedig ar yr adborth i'r ymgynghoriad, ni fydd y cynnig hwn yn cael ei weithredu.

**Grantiau'r sector gwirfoddol**
Roedd y cynigion yn cynnwys gostyngiadau mewn grantiau i nifer o sefydliadau yn y trydydd sector. O ganlyniad i'r adborth i'r ymgynghoriad, ni fydd gostyngiadau sy'n ymwneud â Mind a Pobl yn Gyntaf Casnewydd yn cael eu gweithredu.

**Trafnidiaeth o'r cartref i'r coleg**
Roedd y cynigion gwreiddiol yn cynnwys rhoi'r gorau i ddarparu trafnidiaeth o'r cartref i'r coleg a chael gwared ar grantiau teithio ôl-16 i ysgolion a cholegau prif ffrwd. O ganlyniad i adborth i'r ymgynghoriad, ni fydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu.

**Cefnogi adfywio yn y dyfodol**
Mae tua £5 miliwn wedi'i glustnodi i hwyluso benthyca gan y Cyngor y gellid ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiad y sector preifat a phrojectau adfywio yn y ddinas yn y dyfodol.

**Creu cyngor modern**
Mae'r cyngor, hyd yma, wedi gwneud buddsoddiad cyfyngedig ym maes TG. Fe'i nodwyd fel pwysau ar gyfer blynyddoedd i ddod, a phenderfynodd y Cabinet fuddsoddi mewn gwella TG a hyfforddiant staff nawr. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i foderneiddio ei arferion gwaith, gan sicrhau bod yr awdurdod yn fwy effeithlon a hyblyg, ac yn ei dro yn darparu gwasanaeth gwell i'r trigolion.

## GWASANAETH GWIRIO CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG YR UE

**Bydd angen i ddinasyddion yr UE sydd am barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y DU ar ôl i wledydd Prydain adael yr UE wneud cais i'r cynllun preswylio'n sefydlog.**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd nawr yn cynnig gwasanaeth sganio dogfennau newydd lle gallwch gael eich dogfennau adnabod wedi'u sganio a'u dilysu er mwyn gwneud cais.

Mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 9am a 3pm ar dydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener, a rhwng 9.30am a 3pm ar ddydd Mawrth. Nid oes angen apwyntiad ond efallai y bydd angen i chi aros tan fod aelod o staff ar gael.

Am ragor o wybodaeth a manylion am yr hyn sydd angen i chi ddod ag ef gyda chi, ewch i **www.newport.gov.uk/brexit** neu ffoniwch 01633 656656

Hefyd mae yna nifer o wasanaethau yng Nghasnewydd a all eich helpu i wneud cais i'r CPS, rhoi cyngor i chi neu fynd i weld y gwasanaeth sganio gyda chi. Mae rhagor o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru **www.eusswales.com**

## PARTNERIAETH I HYBU UCHELGAIS CARBON NIWTRAL Y CYNGOR

**Mae project uchelgeisiol i osod nifer o baneli solar ar doeon adeiladau'r Cyngor ledled Casnewydd wedi cymryd ei gam cyntaf.**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydweithio ag Egni Co-op i helpu'r awdurdod gyda'i nod o ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.

Yn dilyn astudiaeth fanwl o ddichonoldeb - gyda chefnogaeth Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru, Cymunedau Cynaliadwy Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru - mae cynllun wedi'i lunio i osod 6,000 o baneli solar mewn 21 o safleoedd na fydd angen i'r Cyngor dalu amdanynt.

Mae ysgolion, depo cyngor a chartrefi gofal wedi'u nodi hyd yma ac ar ôl eu gosod bydd y paneli solar yn cynhyrchu 1,973,000 o unedau o drydan adnewyddadwy glân bob blwyddyn.

Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar yng nghartrefi Gofal Preswyl Parklands a Blaen-y-Pant lle mae 129 o baneli solar wedi'u gosod yn y ddau safle.

Bydd y rhan fwyaf o'r trydan a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio ar y safle gan leihau allyriadau carbon y cyngor gan 348 tunnell y flwyddyn. Bydd rhywfaint o drydan yn cael ei allforio i'r grid i'w ddefnyddio yn y ddinas hefyd.

Sefydliad cymunedol sy'n ariannu ac yn rheoli gosodiadau PV yng Nghymru yw Egni Co-op. Fe'i sefydlwyd gan Awel Aman Tawe (AAT), elusen ynni gymunedol sydd wedi bod yn gweithredu ers 20 mlynedd.

Mae'r paneli solar yng Nghasnewydd wedi'u hariannu gan fenthyciad gan Fanc Datblygu Cymru a chynnig cyfranddaliadau cydweithredol parhaus Egni sydd wedi codi £1.4m hyd yma.

## CWYNION AM FAW CI

**Mae perchnogion cŵn yn gyfrifol am glirio ar ôl eu hanifeiliaid anwes sy'n baeddu mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys parciau a chaeau chwarae.**

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd Orchmynion Rheoli Cŵn ar waith **www.newport.gov.uk/dogcontrol** gyda throseddwyr yn wynebu dirwy Hysbysiad Cosb Benodedig yn y fan a'r lle o £75. Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu dosbarthu am droseddau gan gynnwys methu â gwaredu baw ci a methu â chadw ci ar dennyn sy'n 1.5 metr ar y mwyaf.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn ymdrin â mynwentydd yn Christchurch, Caerllion a St Gwynllyw.

Fodd bynnag, er bod wardeiniaid diogelwch cymunedol y Cyngor yn gallu ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans sŵn, taflu sbwriel a baw cŵn, mae hefyd angen i'r cyhoedd roi gwybod am faw cŵn i'n helpu i adnabod troseddwyr a chymryd camau gorfodi.

Gall y gwasanaeth a redir gan y Cyngor dderbyn cwynion dros e-bost yn **incidents.wardens@newport.gov.uk**, a dros y ffôn ar 01633 656656 rhwng 8am a 6pm ac ar ôl 6pm ar 01633 656667.

Gall y cyhoedd hefyd wneud cais glanhau stryd os oes baw ci yno, drwy ymweld â'n gwefan **www.newport.gov.uk/onlineservices**

## CYSTADLEUAETH DDYLUNIO I BLANT

**Rydym yn apelio i artistiaid ifanc addawol yng Nghasnewydd i ddylunio cardiau llyfrgell i blant.**

Gall plant rhwng 4 a 12 oed gyflwyno eu dyluniadau a ddylai ddangos faint maen nhw'n caru llyfrgelloedd a darllen, i'w llyfrgell leol erbyn 18 Ebrill.

Bydd yr enillydd hefyd yn derbyn pecyn celf ac ymweliad artist â'i ysgol.

## LANSIO ADDEWID CASNEWYDD

**Mae Addewid Casnewydd yn cefnogi'r weledigaeth y bydd y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gysylltu plant a phobl ifanc â'r byd gwaith.**

Ei nod hefyd yw creu cyfleoedd i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.

Yn y pen draw y nod fydd sicrhau y gall pob person ifanc yn y ddinas, a phreswylwyr sydd allan o waith, gael swydd sy'n eu galluogi i gyrraedd eu potensial llawn wrth gyfrannu at dwf economaidd y ddinas.

Ar gyfer pobl ifanc, ysgolion a'r economaidd anweithgar bydd hyn yn cynnwys mynediad at brentisiaethau, cyfnodau hyfforddi, gwirfoddoli, ymweliadau â'r gweithle, mentora a chymorth.

Mae nifer o gwmnïau blaenllaw eisoes wedi addo cefnogi Addewid Casnewydd gan fod hwn yn gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc a dangos cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Gall busnesau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan e-bostio **newportcommitment@newport.gov.uk**

NEWPORT COMMITMENT
ADDEWID CASNEWYDD

**Mae digartrefedd, yn enwedig y mater anodd o bobl sy'n cysgu ar y stryd, yn broblem gynyddol yng Nghymru a ledled y DU.**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio'n rhagweithiol, gyda phartneriaid, i liniaru digartrefedd a chysgu ar y stryd ac mae hyn yn cynnwys staff rheng flaen sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl sydd ar y strydoedd.

Mae wedi mabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd Gwent sy'n defnyddio sgiliau a gwybodaeth swyddogion allweddol ac yn gweithio tuag at argymhellion Llywodraeth Cymru er mwyn gallu mynd i'r afael â mater cymhleth iawn mewn ffordd gydgysylltiedig.

Y llynedd, cytunodd Llywodraeth Cymru ar gyllid o £300,000 ar gyfer project Tŷ yn Gyntaf sy'n torri tir newydd.

Gan weithio gyda'r cyngor, bydd Pobl yn gweithredu'r project, a'r nod yw derbyn pobl sydd â hanes o fod yn ddigartref dro ar ôl tro a'u helpu i mewn i lety hirdymor.

Y mis diwethaf, symudodd ail gleient Pobl i'w gartref ei hun, oddi ar y stryd.

*"Diolch am fecso. Fydden i ddim lle rydw i hebddoch chi."*

Mae digartrefedd ar dwf ledled y wlad ac mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i bobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd, y rhai sy'n ddigartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Trwy weithio gyda phartneriaid, mae gan y cyngor nifer o weithdrefnau effeithiol ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd ar draws y ddinas ac mae cysgu ar y stryd yn rhan o'r gwaith hwn.

# HELPU POBL DDIGARTREF

Mae Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent ac elusennau arbenigol megis Eden Gate, y Wallich a Pobl yn cydweithio'n agos gan eu bod yn cydnabod bod rhai pobl yn ein cymdeithas yn agored iawn i niwed a bod angen cefnogaeth, help ymarferol a chymorth penodol arnynt i dorri'r cylch digartrefedd.

Mae'r rhesymau pam mae pobl yn cysgu ar y strydoedd yn gallu bod yn gymhleth ond mae'r niferoedd yn eithaf bach yng nghyd-destun pobl sydd angen cymorth gyda materion tai ddigartref, ar gael yn **www.newport.gov.uk/homelessness** igan gynnwys manylion am sut i gysylltu â StreetLink sy'n galluogi'r cyhoedd i gysylltu pobl sy'n cysgu ar y stryd â gwasanaethau cymorth lleol.

Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn dibynnu ar ymgysylltu ag unigolion, y mae gan rai ohonynt anghenion cymorth lluosog, ond ni fydd hynny'n ein hatal rhag parhau i estyn allan i gynnig cymorth a chyngor.

Mae mwy o wybodaeth am sut y gallwn helpu pobl sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ar gael yn **www.newport.gov.uk/supportingpeople**

Mae'n rhaid i'r cyngor hefyd gydbwyso anghenion a diogelwch preswylwyr a busnesau eraill yng nghanol y ddinas o ran safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan bobl sy'n cysgu ar y stryd. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi mynd i'r afael â rhai safleoedd yn dilyn cwynion gan y cyhoedd.

Mae rhaglen Cefnogi Pobl Casnewydd hefyd yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i dros 4,000 o bobl sy'n agored i niwed.

Gall hyn helpu i reoli llety neu ddod o hyd i lety mwy addas. Dysgwch fwy am y rhaglen yn programme at **www.newport.gov.uk/supportingpeople**

## TYNHAU CYFREITHIAU TRWYDDEDAU GYRWYR TACSI

**Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymuno ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i dynhau'r canllawiau wrth gyhoeddi trwyddedau ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat.**

Lluniwyd canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu (IOL) i amddiffyn y cyhoedd rhag gweithredwyr twyllodrus.

Mae'r Cyngor eisoes wedi dilyn rheolau llym wrth asesu a oedd ymgeisydd yn 'addas a phriodol' i ddal trwydded. Mae canllawiau'r IOL yn golygu bod gan awdurdodau lleol fwy o gysondeb wrth gyhoeddi trwyddedau.

Maent hefyd yn atal gyrwyr posibl rhag 'siopa' rhwng awdurdodau lleol i gael trwydded.

## YDYCH CHI'N TREFNU SESIWN CASGLU SBWRIEL?

**Os ydych chi'n trefnu sesiwn casglu sbwriel gymunedol, gallwch fenthyg offer o Lyfrgell Malpas.**

Gan weithio mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus, mae gennym offer sy'n rhad ac am ddim i unigolion, grwpiau ac ysgolion sy'n awyddus i wneud eu rhan yn y gymuned a gwella'r amgylchedd lleol.

Ar ôl i chi orffen, byddwn yn nodi faint o bobl a oedd yn cymryd rhan, yr ardal a gwmpaswyd a'r hyn a gasglwyd, felly gall hyn lywio digwyddiadau a chynlluniau yn y dyfodol.

Dewch draw i'r llyfrgell am fwy o wybodaeth neu i archebu cit.

# MAE MENTER CYNGOR DINAS CASNEWYDD YN GAM YMLAEN

**Nid cotiau yn unig y mae disgyblion a staff Casnewydd yn eu tynnu cyn gwersi – maent hefyd yn tynnu eu hesgidiau.**

Mae'r ystafell ddosbarth heb esgidiau yn fenter a gyflwynwyd i Ysgol Gynradd Caerleon Lodge Hill yn dilyn ymweliad â'r Ffindir gan Caroline McLachlan, Cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol, a'r Cynghorydd Gail Giles, ar eu traul eu hunain.

Ym mis Medi 2018, ymwelodd Mrs McLachlan a'r Cynghorydd Giles, yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau, â thair ysgol yn Turku.

Yn ogystal â dysgu am system addysg y Ffindir, cawsant gyfarfod hefyd â chyfarwyddwr addysg Turku.

Rhoddodd olwg diddorol iddynt ar sawl agwedd ar fywyd yr ysgol gan gynnwys sut mae tynnu esgidiau mewn ysgolion yn annog amgylchedd dysgu mwy hamddenol.

Gwnaeth safon y prydau ysgol hefyd argraff fawr ar y Cynghorydd Giles a Mrs McLachlan, a oedd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y maeth gorau i gynorthwyo ei les a'i ddysgu.

Rhoesant adroddiadau manwl i'r cyngor a chytunwyd, gyda chefnogaeth ymchwil ac astudiaethau, y dylid cyflwyno polisi dim esgidiau, ac y câi prydau ysgol eu hadolygu.

O ystyried y rôl hanfodol mae Mrs McLachlan wedi'i chwarae, ystyriwyd ei bod yn briodol y dylai Ysgol Gynradd Caerleon Lodge dreialu'r project dim esgidiau. Dywedodd y Cynghorydd Giles:

*"Gyda chefnogaeth y pennaeth, Julie Saville, staff a llywodraethwyr, mae Ysgol Gynradd Caerleon Lodge Hill wedi datblygu'r polisi dim esgidiau sy'n llwyddiant ysgubol ac sy'n gwella'r amgylchedd dysgu ac yn fwynhad i'r disgyblion.*

*"Hoffwn hefyd ddiolch i'r pennaeth, Rebecca Penn, staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams, sydd bellach yn datblygu amgylchedd dim esgidiau."*

## WINNERS YN DANGOS EI GARIAD BRAWDOL

**Yn 11 oed yn unig, mae'r Winners Sessay yn gwybod eisoes sut beth yw gofalu am eraill gan ei fod yn chwarae rhan bwysig wrth ofalu am ei frawd Eliott, sy'n naw oed, ac mae ganddo anghenion cymhleth.**

Mae'r enillwyr yn un o fwy na 90 o blant a phobl ifanc sy'n cael cymorth gan Barnardo's Cymru Gofalwyr Ifanc Casnewydd, gwasanaeth a sefydlwyd i roi seibiant iddynt o'u cyfrifoldebau gofalu.

Mae Winners yn helpu Stella, sy'n fam i dri, gyda phopeth o olchi, gwisgo a bwydo Eliott i godi yn y nos i sicrhau bod ei frawd yn ddiogel os yw wedi deffro a gadael ei ystafell wely i fynd i lawr y grisiau.

Nid yw Eliott yn gallu cyfathrebu ar lafar, mae'n awtistig ac mae Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd arno, felly gall ei drin fod yn her i'r teulu o Ringland, Casnewydd.

Er bod helpu i edrych ar ôl Eliott yn gyfrifoldeb, mae'n un y mae'n ei fwynhau.

*"Mae'n hwyl chwarae gydag e a phan fydda i'n tyfu, bydda i'n gwybod sut i ofalu am blant. Rwy'n hoffi dangos i mam pa mor gyfrifol ydw i,"*

Mae Winners yn un o filoedd o bobl ifanc y cafodd eu rolau eu cydnabod ar ddiwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr Ifanc ym Mis Ionawr.

Pan fydd yn cael pethau'n anodd gall siarad â gweithiwr project ei Barnardo's Cymru am yr hyn sy'n ei boeni ac mae'n mwynhau cyfarfod â gofalwyr ifanc eraill yn un o'u clybiau cymdeithasol.

Anogodd y Cynghorydd Paul Cockeram, Aelod Cabinet y Cyngor dros y gwasanaethau cymdeithasol, unrhyw un o dan 25 oed sy'n helpu i ofalu am berthynas neu anwylyd i gysylltu â Barnardo's ar 01633 251152, **e-bost barnadosnewportservices @barnados.org.uk** neu i ffonio'r Cyngor ar 01633 656656.

## YSGOLION IACH

**Mynychodd disgyblion a staff o ysgolion Casnewydd seremoni arbennig yn y Ganolfan Ddinesig i nodi llwyddiant ysgubol.**

Maent oll wedi cael gwobr ansawdd genedlaethol penigamp y Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

Cafodd Ysgolion Cynradd Glasllwch; Mount Pleasant; Gaer; St Andrew; Maendy; Cleidda; Eveswell; Langstone; Malpas Court; Llyswyry; Ysgol Gymraeg Casnewydd ac Ysgol Feithrin Fairoak eu cydnabod.

Cyflwynodd Maer Casnewydd, y Cynghorydd William Routley'r wobrwyon yn y seremoni. Hefyd yn bresennol yn y seremoni roedd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jane Mudd, a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau, y Cynghorydd Gail Giles.

Er mwyn ennill y wobr ansawdd genedlaethol, rhaid i'r ysgol gyfan groesawu'r saith thema sy'n cynnwys bwyd a ffitrwydd; datblygiad personol a lles emosiynol.

Dywedodd y Cynghorydd Mudd:

*"Hoffwn longyfarch bob ysgol ar y llwyddiant ardderchog. Gall gymryd naw mlynedd i gael y wobr lawn, felly mae'n ymrwymiad mawr i ysgol a dylent fod yn falch iawn."*

Dywedodd y Cynghorydd Giles:

*"Mae'r wobr hon yn galluogi ein pobl ifanc i gael agwedd bositif o ran iechyd a lles ac mae'n ffordd ardderchog o'u cyflwyno nhw i egwyddorion fydd yn aros gyda nhw am weddill eu bywydau." Da iawn."*

Bu disgyblion o Ysgol Bassaleg yn helpu gyda threfn y digwyddiad a gynhaliwyd yn Siambr Cyngor y Ganolfan Ddinesig.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn cydnabod Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru fel cynllun sy'n chwarae rhan allweddol wrth hybu iechyd plant a phobl ifanc, ac mae'r cynllun wedi ei gyflwyno trwy Gymru ers 2000.

## CYRCHFAN DDIGIDOL

**Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymchwilio i gynnig arloesol i ddod â gofod cydweithio i ganol y ddinas yn amodol ar gyllid.**

Gallai oddeutu 9,000 tr sg ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yn yr Orsaf Wybodaeth, sy'n cael eu defnyddio gan wasanaethau'r cyngor ar hyn o bryd, ddod ar gael i fusnesau newydd yn y sectorau digidiol, technoleg a chreadigol.

Os ceir tenant, bwriedir y bydd staff y cyngor yn symud o adeilad Queensway i adeilad arall ym mherchnogaeth y Cyngor yng nghanol canol y ddinas, Llyfrgell ac Oriel Gelf Casnewydd.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

*"Credwn fod cryn diddordeb yn y math hwn o gyfleuster yn dod i Gasnewydd.*

*"Mae cysyniad yr Orsaf Wybodaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn ac rydym am barhau â hynny yng nghanol y ddinas. Bydd symud gwasanaethau i Sgwâr John Frost yn eu gwneud nhw hyd yn oed yn fwy hygyrch i breswylwyr gan ei fod yn agos at feysydd parcio a'r orsaf fysus ac yn gwneud defnydd gwell o'r llyfrgell ac adeilad yr amgueddfa."*

## CAM NESAF YN Y FRWYDR YN ERBYN PARCIO ANGHYFREITHLON

**Bydd cerbyd gorfodi symudol newydd ar strydoedd Casnewydd y mis nesaf fel rhan o ymdrech barhaus y Cyngor i fynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon.**

Ers cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil ym mis Gorffennaf y llynedd, mae dros 16,000 o Hysbysiadau Tâl Cosb wedi'u cyflwyno i yrwyr sy'n parcio'n anghyfreithlon ar draws y ddinas.

Mae adborth y cyhoedd wedi bod yn gadarnhaol iawn, ond mae adroddiadau wedi dangos bod yr ardaloedd o amgylch ysgolion yn parhau i fod yn feysydd problemus.

I helpu i dargedu'r mater hwn, mae'r Cyngor yn cyflwyno cerbyd gorfodi symudol newydd i orfodi llinellau igam ogam y tu allan i ysgolion, yn ogystal â chroesfannau cerddwyr, lonydd bysus, safleoedd tacsis, clirffyrdd a chyfyngiadau dim llwytho.

Bydd camerâu ar y to ar y car adnabyddadwy a logos amlwg yn dweud 'cerbyd gorfodi parcio' yn glir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r cerbyd newydd hefyd yn hybrid, a fydd yn lleihau ei effaith ar yr amgylchedd.

Bydd modurwyr sy'n cael eu dal yn parcio'n anghyfreithlon yn cael Hysbysiad Tâl Cosb trwy'r post gyda dirwyon ar yr un lefel – £70 (a gostyngiad o 50 y cant os telir o fewn 7 diwrnod).

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet y Cyngor dros Wasanaethau'r Ddinas:

*"Mae'r cerbyd gorfodi parcio symudol pwrpasol hwn yn fuddsoddiad a fydd yn gwella diogelwch y cyhoedd ac yn ehangu g allu'r Cyngor i fynd i'r afael yn effeithiol â blaenoriaethau gorfodi allweddol. Ein nod yw lleihau nifer y cerbydau sydd wedi'u parcio'n anghyfreithlon y tu allan i ysgolion, mewn safleoedd bysus ac ar groesfannau i gerddwyr, gan felly ddarparu llwybrau mwy diogel ar gyfer cerdded a beicio ar draws Casnewydd"*

*Bydd tîm newydd o Swyddogion Gorfodi Sifil, wedi'u cyflogi gan y Cyngor, yn patrolio'r ddinas.* Bydd y swyddogion hyn yn gallu gorfodi'r holl gyfyngiadau parcio ar y briffordd gyhoeddus os yw cerbyd wedi'i barcio'n anghyfreithlon, gan gynnwys parcio ar linellau melyn; parcio'n hwy nag a ganiateir mewn mannau parcio; parcio o flaen cyrbau isel ; parcio ymhellach na 50cm o ymyl y cwrbyn.

Bydd cyfyngiadau traffig eraill yn parhau i gael eu gorfodi gan Heddlu Gwent.

# CAM NESAF YN Y FRWYDR YN ERBYN PARCIO ANGHYFREITHLON

**Bydd 17 o bwyntiau gwefru ychwanegol ledled Casnewydd, diolch i gyllid.**

*Mae awdurdodau lleol Gwent wedi llwyddo i gael £459,000 gan Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (SCAL) i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydanol mewn meysydd parcio mewn ardaloedd preswyl.*

*Mae'r gosodiadau newydd yn cynnwys tri phwynt gwefru dwbl ym maes parcio Glan yr Afon, maes Parcio Hill Street a maes parcio Maendy gyda phedwar pwynt gwefru dwbl ym maes parcio Faulkner Road. Gosodir pwyntiau gwefru dwbl hefyd ym meysydd parcio Stow Hill a Mill Parade. Disgwylir iddynt fod yn weithredol yn ddiweddarach yn y gwanwyn.*

*Bydd y costau Talu ac Arddangos yn dal yn berthnasol yn ystod yr amseroedd a nodir a'r gost am ddefnyddio'r pwyntiau gwefru fydd 95c ynghyd â 25c fesul kWh.*

*Dewiswyd y pwyntiau gwefru yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd ledled Gwent a byddant ar gael drwy'r dydd, bob dydd i'r holl drigolion, ymwelwyr a busnesau.*

*Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Wasanaethau'r Ddinas:*

*"Rydyn ni wrth ein bodd o fod wedi cydweithio â holl awdurdodau lleol Gwent i osod y pwyntiau gwefru ychwanegol hyn ac rydym yn hynod ddiolchgar am y cyllid hwn i gynyddu nifer y pwyntiau gwefru sydd ar gael yng Nghasnewydd a chefnogi ein huchelgais ehangach i greu amgylchedd gwyrddach ac iachach.*

*"Fel Cyngor, rydym wedi cyflwyno cerbydau trydanol i'n fflyd ac yn gobeithio drwy gael mwy o bwyntiau gwefru yng Nghasnewydd a ledled Gwent, y byddwn yn annog preswylwyr i ddewis opsiynau cerbyd mwy cynaliadwy."*

Prif nod y cynllun yw mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl mewn ardaloedd preswyl rhag manteisio ar gerbydau trydanol gan nad oes ganddynt gyfleusterau parcio oddi ar y stryd (h.y. dim rhodfa neu fodurdy lle byddai modd gwefru cerbyd trydanol).

Cafodd y cynnig ar y cyd ei gyflwyno gan yr awdurdodau gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae'r project hefyd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru a ariannodd yr astudiaeth ddichonoldeb.

I ddod o hyd i bwyntiau gwefru presennol yn eich ardal, ewch i wefan Zap Map neu lawrlwythwch yr app Zap Map ar eich dyfais addas.

# MAE CASNEWYDD YN SWYDDOGOL YN DDINAS SY'N GYFEILLGAR I WENYN

**Casnewydd nawr yn swyddogol yw'r ddinas drefol gyntaf sy'n gyfeillgar i wenyn yng Nghymru.**

Lansiodd Llywodraeth Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru'r fenter i wneud Cymru'n gyfeillgar i beillwyr. Dyfarnwyd y statws aruchel hwn i'r Cyngor ar ôl dangos ymrwymiad i blannu blodau gwyllt mewn mannau priodol fel lleiniau ymyl ffordd, a nodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer plannu fflora a ffawna i helpu'r boblogaeth wenyn i ffynnu.

Er enghraifft, bydd plannu o fewn y parciau, y gerddi a'r ardaloedd gwyrdd sy'n eiddo i'r Cyngor yn cefnogi ffyrdd o fyw'r gwenyn a phryfed eraill sy'n peillio – ac rydym yn gobeithio y bydd sefydliadau eraill, drwy arwain y ffordd, yn dod at ei gilydd i hyrwyddo'r cynllun rhagorol hwn.

Mae'r Cyngor hefyd yn newid y modd y mae'n gweithio i ddiogelu peillwyr a'u cynefinoedd fel gadael ardaloedd i dyfu, llai o chwistrellu a threfniadau torri gwair newydd, yn ogystal â chyflwyno cymysgeddau hadau sy'n addas i beillwyr.

Dywedodd arweinydd y Cyngor y Cynghorydd Jane Mudd:

*"Fel cyngor, cytunon ni ym mis Gorffennaf y llynedd i gefnogi'r cynnig ar gyfer achrediad ac rydym yn falch iawn o gael ein cydnabod fel hyn.*

*"Gall pawb wneud eu rhan i helpu - o sefydliadau cymunedol, ysgolion a busnesau i addoldai.*

Mae safleoedd cyfeillgar i wenyn Casnewydd yn cynnwys mynwent Sant Gwynllyw, cylchfan Bridge Street, Cylchfan Sorrel Drive/ Allt-yr-ynn, gwelyau blodau uchel ar waelod Bryn-glas a Waterloo Road, y dynesiad tuag at gylchfan Harlequin, Wharf Road, mynedfa Parc Seymour, Penhŵ, gwarchodfeydd natur yn Sain Silian ac Allt-yr-ynn a Glan-yr-afon a maes parcio Castle Bingo.

## PROSIECT Y GARDWENYNEN FEINLAIS

Gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, mae ardal o dir fferm yn cael ei rheoli ar gyfer cacwn, yn enwedig y Gardwenynen Feinlais, ar Wastadeddau Gwent.

Dim ond mewn chwe lleoliad yng ngwledydd Prydain y gellir dod o hyd i'r Gardwenynen Feinlais ac mae Gwastadeddau Gwent yng Nghasnewydd yn lleoliad pwysig i'r rhywogaeth.

## MARATHON

**Ar ddydd Sul 19 Ebrill bydd Marathon a 10K Casnewydd Cymru ABP yn croesawu miloedd o redwyr a degau o filoedd o wylwyr i strydoedd Casnewydd a'r cefn gwlad cyfagos - sy'n ymestyn i'r dwyrain cyn belled â Magwyr yn Sir Fynwy.**

Bydd angen cau cyfres o ffyrdd ar hyd y llwybr, a gallwch weld y manylion ar y map cysylltiedig, a fydd hefyd yn cael ei anfon at yr holl breswylwyr a busnesau sy'n cael eu heffeithio.

Fe'i llwyfannwyd am y tro cyntaf yn 2018 ac yn awr yn ôl ar gyfer trydydd tro, bu'r digwyddiad yn llwyddiant mawr - gan roi llwyfan i'r ddinas a'r rhanbarth ehangach, denu twristiaeth, creu effaith economaidd sylweddol i'r economi leol a chodi arian i nifer o elusennau ac achosion da.

Mae'r ras boblogaidd yn ffefryn cadarn ar galendr rhedeg Cymru, yn brolio un o'r cyrsiau marathon gyda'r mwyaf gwastad yn Ewrop.




Cyflwynir y digwyddiad gan Run 4 Wales ac mae wedi'i wneud yn bosibl drwy gefnogaeth Associated British Ports, Cyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.newportwalesmarathon.co.uk**